# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - TACHWEDD 2016

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 16 Tachwedd 2016 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol Rhosgadfan** |

| | |
|---|---|
| a) | **Croeso**<br>Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Rhys Owen. Yn bresennol roedd Elwyn Jones, Neal Williams, Michelle Williams, Les Williams, Cyng. Aeron M Jones, Elin Evans, Gwilym Ll Williams, Jason Hunt, Gwilym V Thomas, hefyd yn bresennol roedd y Clerc Caryl E Lewis. |
| b) | **Ymddiheuriadau**<br>Nerys Evans, Tom Ellis |
| c) | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi. |
| d) | **Cadarnhau cofnodion 19 Hydref 2016 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir. |
| e) | **Materion i'w trafod:**<br><br>a) Lleoliad cyfarfodydd<br>Nododd y Clerc ei fod yn anodd cynnal cyfarfodydd yng Nghanolfan Llanwnda gan fod gwersi yoga yn y neuadd pob nos fercher a tydy ystafell y Cylch ddim digon mawr. Cytunwyd i barhau i ddefnyddio'r neuadd ond newid noson y cyfarfod hwnnw i noson arall.<br>b) Tir ychwanegol y fynwent – Gweithredoedd, cytundeb pori, manyleb wal<br>Bydd angen trefnu cyfarfod safle a gwadd Gerwyn o fferm Gadlys yno, bydd angen lledu yr adwy a creu llwybr drwy canol y fynwent i gario'r cerrig. Cytuno i ddefnyddio'r templed cytundeb pori mae FUW wedi gyrru.<br>c) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos<br>Cafwyd adroddiad byr gan RO yn diweddaru aelodau ar y materion sydd yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Mae cyfarfod pellach i'w drefnu yn fuan, maent yn edrych i godi am barcio yn Dinas Dinlle ond pheidio a chodi ar drigolion lleol ond mae mater o ran sut byddai hyn yn cael ei blismona.<br>d) Ceisiadau Nawdd 2016/17<br>Rhannodd y Clerc y templed ffurfen gais am grant a gofynnodd am sylwadau. Roedd aelodau yn hapus iawn i dderbyn y ffurflen a cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ac yn sicrhau ceisiadau a gwybodaeth cyson. Awgrymwyd yr addasiadau canlynol:<br>- Angen bocs i nodi os ydynt wedi eu lleoli yn Llanwnda.<br>Roedd aelodau hefyd yn hapus i dderbyn y draft or polisi grantiau roedd y clerc wedi ei ddatblygu. Cytunwyd fod angen iddo fod yn glir beth ydy'r budd ar gyfer cymunedau lleol, mae hyn yn enwedig yn wir am fudiadau cenedlaethol.<br>e) Bedd angen ei glirio<br>Mater wedi codi gyda bedd yn y fynwent sydd heb ei glirio a bron 2 flynedd ers dyddiad claddu. Clerc yn nodi ei bod wedi cysylltu gyda'r teulu a'i bod am fynd ati i glirio dros yr wythnosau nesaf, roeddynt yn ymddiheuro ond ddim wedi deallt fod rheol. Nododd y Clerc fod gwers yma i'r cyngor, sef fod angen sicrhau fod y teuluoedd yn derbyn y rheolau ar y pwynt cychwynnol er mwyn osgoi sefyllfa debyg.<br>f) EJ – Llwybr Bryngwyn, angen gwaith ar y llwybr.<br>Clerc wedi cysylltu gyda Wyn Williams y Contractwr a mae am wneud y gwaith ar llwybr Bryngwyn.<br>g) GVT – Lamp ochr arall i ysgol Rhosgadfan yng nghanol coed a felly ddim yn effeithiol, angen torri coed neu symud y polyn.<br>Clerc wedi derbyn ymateb gan Colin Worth, Cyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn mynd ati i symud y lamp i dros y ffordd. |

h) GVT - Giat yn ymyl llwybr Pen muriau, wedi tynnu camfa ond y giat ddim yn gweithio.
Clerc yn nodi ei bod wedi cysylltu gyda'r swyddog llwybrau a mae hyn bellach wedi ei sortio.

6. **Derbyn Adroddiadau**

**Materion priffyrdd**

3 mater o gyfarfodydd blaenorol wedi derbyn ymateb yn ol gan Ian Morgan, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd:

1. Twll yn y lon dros ffordd i ysgol Rhosgadfan -
Bydd yn trefnu i'r arolygwr ffyrdd archwilio'r lleoliad, a gweithredu fel bod angen.
2. Dwr yn llifo o caeau Ty Hen, Rhosgadfan -
Mater i'r Uned Dŵr a'r Amgylchedd yw hwn. Bydd Malcolm Owens o'r Uned yn edrych mewn i'r mater, a chyfathrebu gyda'r tir berchnogion perthnasol er mwyn nadu'r dŵr rhag dod i'r ffordd.
3. Damweiniau ar y gornel ger croeffordd Ffrwd Cae Du -
Mater Diogelwch y Ffyrdd yw hyn yn hytrach na mater cynnal, felly yn ei gyfeirio ymlaen i Mr Dylan Wynn Jones, Rheolwr Traffig a Phrosiectau gyda Thrafnidiaeth a Gofal Stryd. Bydd Dylan neu un o'i dim yn cysylltu yn ôl gyda'r Cyngor Cymuned i drafod y mater ymhellach.

Ymhellach i mater rhif 3, nodwyd Aelodau fod damwain pellach wedi digwydd yn ystod y dyddiau diwethaf. Bydd y Clerc yn mynd ar ol Dylan eto a bydd Cyng. AMJ yn ceisio cael rhywbeth yn y papur ynglyn a hyn.

7. **Is-bwyllgorau**

Dim i'w nodi

8. **Materion Ariannol**

a) Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)

Derbyniwyd yr adroddiad ariannol isod gan y Clerc, roedd yr Aelodau yn fodlon gyda'r adroddiad a chytunwyd i'r taliadau.

**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 15 Tachwedd 2016</u>**

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen: | **20,336.59** |
| **Balans ar derfyn busnes 15 Tach 2016** | **20,336.59** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen: | **3,455.51** |
| - 101385 Swyddfa'r Post – PAYE | 99.00 |
| - 101384 Caryl E Lewis – Clerc | 438.51 |
| - 101386 Petty Cash | 300.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 18 Hydref 2016:** | **2,618.00** |

**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Tachwedd 2016:</u>**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Tach | 438.51 |
| Cyllid y Wlad Tach | 99.00 |

| | |
|---|---|
| | Cyflog Clerc Rhag 438.51<br>Cyllid y Wlad Rhag 99.00<br>Antur Nantlle – Safle Gwe 144.00<br><br>**Cyfanswm 1,120.02**<br><br>b) Llog<br>Gofynnwyd a oes modd cael premium bonds? Clerc i edrych mewn i hyn. Angen edrych ar bolisi buddsoddi Cyngor Gwynedd ac ystyried cael un i'r Cyngor Cymuned. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Dim i'w nodi |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>Cyngor Gwynedd - Biniau Halen – Cadarnhad pellach o beth fydd y gost i gynghorau cymuned<br>Antur Nantlle – Llythyr yn hysbysu o gyfarfod cyffredinol blynyddol.<br>Swyddfa Post – Cadarnhau y bydd Van symudol yn do di ardal Rhosgadfan.<br>BT – ymgynghori ar giosgs maent yn bwriadu eu cau, nodwyd fod nifer o fewn ardal Llanwnda ond yn anodd dadlau yn erbyn gan nad oedd tystiolaeth fod unrhyw ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br><br>MW – Llinellau melyn Jericho, Rhosgadfan. Llinellau wedi eu gwneud ond mae'r perchennog yn gwrthod symud y van felly mae rhan heb llinellau.<br>EJ – Sgwar Rhostryfan, ceir yn parcio ar y sgwar ar y llinellau melyn dwbl bob nos.<br>EJ – Cynllun gan Ysgol Rhostryfan i greu trydan hydro gyda afonydd y pentref. Trydan yn cael ei bwmpio mewn i'r ysgol a gwerthu'r gweddill ir grid. Eisiau cefnogaeth y cyngor cymuned, Clerc i wneud llythyr.<br>EJ – Rhostryfan – Man cychwyn Lon Bryngwyn, mae'r grid angen ei glirio. EJ - Angen sgwennu llythyr at Gwmni Rheilffordd Ffestiniog i ofyn am ddiweddariad gyda'r gwaith o glirio o dan y bont rheilffordd.<br>LW – Bro Wydr, Rhosgadfan parcio y ddwy ochr i'r lon ger Fferm Bryngwynt a pobl methu dod allan ohono.<br>EE – Damwain eto ar y gornel wrth croesfan Ffrwd Cae Du. Angen chevron neu debyg.<br>NE - (Ar ebost) - 'Gullies' i lawr y lon o sgwar Rhostryfan i Ffrwd Cae Du wedi cau'n llwyr a y dwr yn llifo dros y lon. Mi fydd hyn yn dipyn o broblem os gawn ni dywydd rhewllyd.<br><br>**Dyddiad: 18 Ionawr 2017**<br>**Lleoliad: Llanwnda.** |